



Joint Council for
Qualifications

Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC

**Adolygiadau o'r marcio – marciau a asesir gan y ganolfan
Asesiadau dan reolaeth TGAU, gwaith cwrs TAG,
asesiadau di-arholiad TAG a TGAU**

Dymuna'r CGC a'r cyrff dyfarnu sy'n aelodau ohono (AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC) atgoffa canolfannau bod bellach yn rhaid hysbysu ymgeiswyr am eu marciau a asesir gan y ganolfan fel y gallant wneud cais am adolygiad o farcio'r ganolfan cyn i farciau gael eu cyflwyno i'r corff dyfarnu.

Rhaid i ganolfannau gynllunio i gwblhau'r gweithgareddau canlynol cyn y dyddiadau cau y mae'r cyrff dyfarnu wedi'u cyhoeddi ar gyfer cyflwyno marciau.

Rhaid i'r ganolfan:

- rhoi gwybod i bob ymgeisydd sydd wedi cofrestru ar gyfer gwaith a asesir gan y ganolfan am y marc(iau) a ddyfarnwyd, a'u cynghori y gallan nhw wneud cais am gopïau o'r deunyddiau i'w cynorthwyo wrth ystyried p'un a ydyn nhw am wneud cais am adolygiad o farcio'r ganolfan ar gyfer yr asesiad†;
- ar ôl derbyn cais am gopïau o ddeunyddiau, sicrhau eu bod ar gael yn brydlon i'r ymgeisydd;
- rhoi digon o amser i ymgeiswyr adolygu copïau o ddeunyddiau a chyrraedd penderfyniad;
- caniatáu digon o amser i gynnal adolygiad o'r marcio, er mwyn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r marcio ac i roi gwybod i'r ymgeisydd am y canlyniad cyn terfyn amser y corff dyfarnu;
- sicrhau bod yr adolygiad o'r marcio yn cael ei gynnal gan aseswr sydd â chymhwysedd priodol, nad yw wedi ymwneud ag asesu'r ymgeisydd hwnnw yn y gorffennol ac nad oes ganddo unrhyw ddiddordeb personol yng nghanlyniad yr adolygiad‡;
- rhoi cyfarwyddyd i'r adolygwr i sicrhau bod marc yr ymgeisydd yn gyson â'r safon a osodir gan y ganolfan;
- rhoi gwybod i'r ymgeisydd yn brydlon ac yn ysgrifenedig am ganlyniad yr adolygiad o farcio'r ganolfan.

†Gallai'r deunyddiau hyn gynnwys copi o'u gwaith sydd wedi'i farcio, y fanyleb berthnasol a dogfennau cysylltiedig pwnc-benodol.

‡Gallai hwn fod yn drydydd parti, ar yr amod ei fod yn bodloni'r amodau sy'n cael eu diffinio uchod.
(2018/19)